Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Y Ffordd Gywir

## Dull seiliedig ar hawliau dynol plant o ymdrin â'r Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae dull seiliedig ar hawliau dynol plant yn fframwaith egwyddorol, ymarferol. Mae'r canllaw hwn yn nodi sut gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyflawni dyletswyddau sylw dyledus i hawliau dynol plant o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018.



# Y Ffordd Gywir

## Ar gyfer pwy mae'r fframwaith hwn?

Bydd y fframwaith hwn yn cefnogi awdurdodau lleol a chyrff iechyd (Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG) i ddatblygu dull seiliedig ar hawliau dynol plant o ymdrin â'u dyletswyddau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018. Er bod y fframwaith yn benodol yn cefnogi'r dyletswyddau a gyflwynwyd yn Neddf 2018, gall pob gweithiwr proffesiynol sy'n cyflwyno gwasanaethau i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn awdurdodau lleol a chyrff iechyd fabwysiadu'r dull gweithredu hwn. Bydd hynny'n sicrhau bod hawliau dynol plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu cefnogi ar draws y gwasanaeth cyfan.

Gall lleoliadau addysg fel ysgolion; lleoliadau blynyddoedd cynnar; Addysg Bellach; lleoliadau EOTAS; lleoliadau addysg anffurfiol a gwaith ieuenctid a lleoliadau addysgu gartref gael hyd i ganllawiau penodol ynghylch sut mae integreiddio dull seiliedig ar hawliau dynol plant ar draws eu darpariaeth yn Y Ffordd Gywir: dull seiliedig ar hawliau dynol plant i addysg yng Nghymru.

## Rhestr o'r Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Diolchiadau | 4 |
| Cyflwyniad i'r dyletswyddau newydd | 5 |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; | 5 |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau | 6 |
| Dull seiliedig ar hawliau dynol plant | 7 |
| Gwreiddio hawliau dynol plant | 7 |
| Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu | 8 |
| Grymuso plant | 10 |
| Cyfranogiad | 11 |
| Atebolrwydd | 12 |
| Comisiynydd Plant Cymru: adnoddau i gefnogi'r canllawiau hyn | 13 |

# CYFLWYNIAD

Dylai Cymru fod yn wlad lle mae pob plentyn yn profi eu hawliau dynol.

Dylai Cymru fod yn wlad lle mae pob plentyn yn profi eu hawliau dynol. Er mwyn i hynny ddigwydd mae angen i hawliau dynol plant fod yn rhan o'n cyfreithiau ni. Ond dyw hynny ynddo'i hun ddim yn ddigon. Mae angen i bobl wybod am yr hawliau hyn. Mae angen i oedolion a phlant ddeall beth maen nhw'n ei olygu. A phan fydd gweithwyr proffesiynol yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar fywydau plant mae angen iddyn nhw sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n diogelu ac yn hybu hawliau dynol plant.

Bu Comisiynydd Plant Cymru yn gwthio i sicrhau bod y gyfraith newydd ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cynnwys 'dyletswydd sylw dyledus' ar gyfer hawliau plant. Croesawodd y swyddfa'n gynnes benderfyniad y Senedd i basio Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 gyda dyletswydd sylw dyledus i ddau o Gonfensiynau'r CU sy'n cyflwyno hawliau plant. Y ddau Gonfensiwn pwysig yma yw:

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn [CCUHP]
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau [CCUHPA].

Mae'r canllawiau hyn, a'r adnoddau sy'n cyd-fynd â nhw, yn cyflwyno dull gweithredu syml, uniongyrchol y gall awdurdodau lleol a byrddau iechyd ei ddefnyddio i sicrhau bod hawliau dynol plant yn ganolog i'w cefnogaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'n ddull gweithredu egwyddorol ac ymarferol, wedi'i seilio ar y ddau Gonfensiwn gan y CU.

Bydd y dull gweithredu hwn yn ein helpu i gymryd cam arall tuag at ein gweledigaeth o Gymru fel gwlad lle caiff hawliau eu gwireddu i bob plentyn.

# DIOLCHIADAU

Mae'r fframwaith hwn yn addasiad o Ffordd Gywir y Comisiynydd Plant i Gyrff Cyhoeddus, a grewyd â chyngor arbenigol gan Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant (sy'n rhan o brifysgolion Abertawe a Bangor).

Trwy ddatblygu'r fframwaith hwn fe ystyrion ni cyngor y sefydliadau a lleoliadau sy'n cefnogi diweddariad canllaw Dull Hawliau Plant y Comisiynydd Plant ar gyfer lleoliadau addysg, fel sy'n cael eu cydnabod ar dudalen 4 y canllaw.

Ar ben hynny, diolch i aelodau o'n Paneli Ymgynghorol a'r sefydliadau a'r lleoliadau canlynol am eu cyngor wrth ddatblygu'r fframwaith hwn:

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru: Grŵp Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwella Ysgolion
- Cyngor Caerdydd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cyngor Merthyr
- Cyngor Abertawe
- Ysgol Arbennig y Bont
- Ysgol Arbennig Tŷ Coch
- YMCA Clwb Ieuenctid Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr

## Cyflwyniad i'r dyletswyddau newydd

Mae Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021 yn esbonio sut mae angen i awdurdodau lleol a chyrff y GIG roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CCUHPA).

Mae Pennod 5 o'r Côd yn esbonio bod angen i'r cyrff cyhoeddus hyn sicrhau bod yr hawliau yn y Confensiynau hyn yn llywio sut maen nhw'n cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu hardal. Mae'n nodi bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus hyn ystyried y Confensiynau wrth gynllunio'n gyffredinol ar gyfer sut byddan nhw'n ymarfer swyddogaethau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn lleol.  Mae'r bennod yn cynnwys rhai enghreifftiau o adegau pryd mae angen i hynny ddigwydd, gan gynnwys:

- Cynllunio'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol ar draws ardal;
- Sefydlu systemau i ddarparu gwybodaeth a chyngor;
- Sefydlu ffyrdd i bobl ifanc gyfranogi;
- Monitro, adolygu a newid trefniadau i gyflawni dyletswyddau Deddf 2018 ar draws ardal.

Mae Pennod 5 hefyd yn esbonio bod modd i gyrff cyhoeddus ddefnyddio dull seiliedig ar hawliau plant i'w tywys wrth ystyried hawliau dynol plant, ac mae'n amlinellu'r pum egwyddor sy'n rhan o ddull gweithredu'r Comisiynydd Plant, Y Ffordd Gywir, ac yn cynghori bod hon yn ffordd i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn rhoi sylw i hawliau dynol plant.

Mae'r ddogfen ganllaw hon gan y Comisiynydd Plant yn addasu ac yn datblygu dull gweithredu Y Ffordd Gywir yn benodol ar gyfer cyd-destun Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Gall cyrff cyhoeddus ddefnyddio'r canllawiau a'r offer hyn i sicrhau eu bod yn rhoi sylw dyledus i hawliau dynol plant wrth wneud penderfyniadau ynghylch sut mae rhoi Deddf 2018 ar waith.

# HAWLIAU DYNOL PLANT

## Beth yw hawliau dynol?

Mae hawliau dynol gan bob bod dynol. Cyflwynwyd y rhain yn y Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol yn 1948. Cyflwynwyd y datganiad hwn yn ymateb uniongyrchol i erchyllderau'r Ail Ryfel Byd, ond roedd yn adeiladu ar syniadau am gyfiawnder a thegwch a oedd wedi bodoli mewn llawer o wahanol gymdeithasau a diwylliannau. Nid oedd y Datganiad Cyffredinol yn gyfreithiol rwymol, ond daeth yn fuan yn gonglfaen cyfraith hawliau dynol rhyngwladol. Mae'r corff hwn o gyfreithiau hawliau dynol rhyngwladol yn esblygu'n barhaus yn sgîl ymdrechion i gymhwyso a datblygu hawliau a rhyddid y Datganiad Cyffredinol i faterion a grwpiau cymdeithasol penodol. Bellach mae mwy nag 80 o gytuniadau hawliau dynol sy'n diogelu hawliau dynol, ar sail egwyddorion creiddiol y Datganiad.[i]

Mae hawliau dynol yn gwarantu rhyddid sylfaenol ac yn diwallu anghenion sylfaenol y ddynoliaeth gyfan, wedi'u seilio ar barch at urddas dynol. Mae hawliau dynol yn rhwymo'r llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus ar bob lefel yn y Deyrnas Unedig, ac yn darparu fframwaith moesegol cadarn ar gyfer cynllunio, gwneud penderfyniadau a gweithredu.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn


Nes eu bod yn cael eu pen-blwydd yn 18, mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn rhoi amddiffyniad arbennig i blant o ran eu hawliau dynol. Yn 1991, cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol i sicrhau bod pob plentyn yn y Deyrnas Unedig yn derbyn yr holl hawliau a restrir yn y confensiwn, trwy gadarnhau CCUHP. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru y Confensiwn yn sail ar gyfer llunio polisi i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn 2004. Roedd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn fodd i gryfhau ac adeiladu ar y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull seiliedig ar hawliau wrth lunio polisi i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan ei fod yn gosod dyletswydd ar holl Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i CCUHP wrth ymarfer unrhyw rai o'u swyddogaethau Gweinidogol.

Mae CCUHP yn cydnabod bod plant mewn sefyllfa wahanol i oedolion, ac y bydd ganddyn nhw'n aml anghenion gwahanol, a hefyd bod plant yn wynebu heriau penodol oherwydd bod plentyndod yn cynnwys cyfnodau datblygiad corfforol neu emosiynol. Mae'r hawliau a gyflwynir yn CCUHP yn fesur diogelu ychwanegol ar gyfer eu diogelwch a'u datblygiad, ac yn cefnogi capasiti plant i wneud penderfyniadau a gweithredu'n annibynnol. Mae holl erthyglau'r confensiwn yn cwmpasu tair prif thema: **Cyfranogiad**, **Darpariaeth** ac **Amddiffyniad**.

Mae'r erthyglau ar **Gyfranogiad** wedi'u seilio ar y syniad o'r plentyn neu'r person ifanc fel rhywun sy'n gwneud cyfraniad gweithredol i gymdeithas fel dinesydd, ac i'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd eu hunain.

Mae erthyglau **Darpariaeth** yn sôn am hawliau sylfaenol plant a phobl ifanc i oroesi a datblygu. Mae'r rhain yn amrywio o ofal iechyd, bwyd a dŵr glân i'r gofynion o ran addysg a'r amgylchedd.

Mae erthyglau **Amddiffyniad** yn delio ag ecsbloetio plant a phobl ifanc yn y gwaith; cam-drin corfforol, rhywiol a seicolegol; camwahaniaethu a chamdriniaeth o fathau eraill, y mae llawer yn dal i'w dioddef, gan gynnwys yn y Deyrnas Unedig.



## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau a'i Brotocol Dewisol ar 13 Rhagfyr 2006. Cyn i'r Confensiwn hwn gael ei fabwysiadu, roedd offerynnau hawliau dynol eraill eisoes yn ymdrin ag anabledd, naill ai fel rhan o ffocws cyffredinol neu'n fwy penodol. Ond roedd y Confensiwn yn angenrheidiol i gadarnhau o'r newydd hawliau dynol pobl ag anableddau, a sicrhau eu cyfranogiad mewn cymdeithas fel aelodau cyfartal. Gallai'r Confensiwn hefyd roi sylw llawnach i'r heriau mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu, ac amddiffyn a hybu eu hawliau'n well trwy offeryn cyfreithiol rwymol.

Cyflwynir pwrpas y Confensiwn yn erthygl 1: hybu, diogelu a sicrhau bod pob person ag anableddau yn **mwynhau eu holl hawliau dynol yn llawn a chyfartal**, yn ogystal â rhyddid sylfaenol, a hybu parch at eu hurddas cynhenid. Mae Erthygl 1 hefyd yn egluro beth a olygir wrth "pobl ag anableddau". Nid yw'r Confensiwn yn darparu diffiniad caeedig o anabledd. Mae'n datgan bod anabledd yn gysyniad sy'n esblygu, a'i fod yn cynnwys pob anabledd. Mae'r Confensiwn hefyd yn adlewyrchu **model cymdeithasol, seiliedig ar hawliau, o anabledd**.

Mae'r Côd Anghenion Dysgu Ychwanegol i Gymru 2021 hefyd yn cyfeirio at fodel cymdeithasol, ac yn cynghori awdurdodau lleol a chyrff y GIG i ystyried y model cymdeithasol wrth roi sylw dyledus i'r Confensiwn. Mae'r model hwn yn dadlau mai cymdeithas sy'n creu rhwystrau (o ran agweddau neu'r amgylchedd) sy'n gwneud pobl yn anabl, yn hytrach na bod pobl yn anabl oherwydd namau corfforol neu feddyliol. Mae'r model cymdeithasol yn agwedd gadarnhaol at anabledd, ac yn canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gydraddoldeb.

Cyflwynir **egwyddorion** CCUHPA yn Erthygl 3, sef:

- Parch at urddas cynhenid, ymreolaeth yr unigolyn, gan gynnwys rhyddid i wneud dewisiadau personol, ac annibyniaeth personau;
- Peidio â chamwahaniaethu;
- Cyfranogiad a chynhwysiad llawn ac effeithiol yn y gymdeithas;
- Parch at wahaniaethau pobl ag anableddau a'u derbyn fel rhan o amrywiaeth pobl a'r ddynoliaeth;
- Cyfle cyfartal;
- Hygyrchedd;
- Cydraddoldeb rhwng dynion a benywod;
- Parch at alluoedd esblygol plant ag anableddau a pharch at hawl plant ag anableddau i gadw eu hunaniaeth



# DULL GWEITHREDU SEILIEDIG AR HAWLIAU DYNOL PLANT

Datblygwyd y dull gweithredu a gyflwynir yn y canllaw hwn o ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant y Comisiynydd Plant i gyrff cyhoeddus. Mae'r Comisiynydd Plant wedi gymhwyso'r dull gweithredu hwn yn benodol i ddyletswyddau Deddf 2018, a sicrhau ei fod yn cwmpasu egwyddorion y ddau Gonfensiwn gan y CU. Mae astudiaethau achos o'r cyfnod datblygu hwn yn arddangos ymarfer y mae modd ei roi ar waith ar draws chyrff cyhoeddus yng Nghymru. Bydd gan rai cyrff cyhoeddus weithdrefnau eisoes sy'n cyd-fynd â dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol i blant: yn aml bydd mabwysiadu'r egwyddorion a'r ymarfer a ddisgrifir isod yn cydweddu â'r hyn sydd eisoes yn gweithio neu yn ei wella.

Egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol[ii] i blant yw:

- Gwreiddio hawliau dynol plant
- Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu
- Grymuso plant
- Cyfranogiad
- Atebolrwydd

## Gwreiddio hawliau dynol plant

Dylai hawliau dynol plant fod yn greiddiol i gynllunio a chyflwyno gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae hyn yn gofyn bod yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni swyddogaethau'r Ddeddf ADY yn deall egwyddorion CCUHP a CCUHPA. Yn yr un modd, bydd angen bod cynghorwyr lleol ac unigolion sy'n rhan o strwythurau llywodraethu cyrff y GIG yn ymwybodol o egwyddorion a chynnwys y confensiynau hawliau dynol hyn.

Dylid adolygu pob polisi sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol neu Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion y ddau gonfensiwn. Er mwyn sicrhau bod pawb yn deall egwyddorion eich dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol, bydd angen cydlynu ar draws gwahanol adrannau, a hefyd gyda gwasanaethau allanol.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn brif ystyriaeth yn yr holl benderfyniadau a wneir ynghylch plant unigol a grwpiau o blant. Dylai fod yn glir ac yn dryloyw lle cymerwyd hawliau dynol plant i ystyriaeth.

**Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylai cyrff cyhoeddus wneud y canlynol:**

- Datblygu gweledigaeth strategol glir ar gyfer gwreiddio dull seiliedig ar hawliau plant wrth gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gwerthuso yn dangos bod arweinyddiaeth yn allweddol yn hyn o beth. **Mae angen i arweinwyr lleoliad hyrwyddo'r weledigaeth hon** a'i gyrru ymlaen â chynllun gweithredu clir.
- Datblygu dealltwriaeth o'r ddau Gonfensiwn ar gyfer yr holl staff sy'n ymwneud â chynllunio strategol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Darparu hyfforddiant i'r holl staff ynghylch hawliau dynol plant, a sicrhau bod staff yn gwerthuso'u gwybodaeth yn rheolaidd, mae enghraifft o hynny yma.
- Datblygu dealltwriaeth o'r ddau Gonfensiwn mewn strwythurau llywodraethu: dylai awdurdodau lleol ddarparu hyfforddiant ar gyfer aelodau cyngor sy'n arwain ym meysydd addysg a iechyd; dylai cyrff y GIG nodi arweinwyr strategol ar gyfer y ddau Gonfensiwn yn eu strwythurau llywodraethu.
- Dylai'r cynllunio strategol ar gyfer ADY ymgorffori Asesiad Effaith ar Hawliau Plant yn y prosesau ar gyfer: cynigion **newydd** o ran polisïau a gwasanaethau ADY, **newidiadau** i bolisïau a gwasanaethau; **adolygu** polisïau a gwasanaethau presennol;
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod Asesiad Effaith ar Hawliau Plant yn cael ei gyflawni fel rhan o'r ddyletswydd i **adolygu'r Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol** a gyflwynir ym Mhennod 7 o'r Côd.
- Defnyddio Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant i ganfod sut mae mwyafu profiad plant o'u hawliau wrth iddyn nhw ymgysylltu â gwasanaethau.

- Nodi tîm trawsadrannol sy'n gallu arwain a hyrwyddo'r dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant ar draws yr holl waith sy'n ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gallai hynny fod yn dîm amlasiantaeth, er enghraifft, gallai gynnwys cynrychiolwyr trafnidiaeth, iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, gyrfaoedd.
- Cynnwys dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant ym mlaenoriaethau strategol y sefydliad a chynnwys cyfeiriad at y dull seiliedig ar hawliau dynol plant mewn disgrifiadau swydd perthnasol ac amcanion ac arfarniadau blynyddol.
- Sicrhau bod ymrwymiad ariannol ar gael i gefnogi datblygiad dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant.
- Cyfeirio at CCUHP a CCUHPA yn yr holl ddogfennau sy'n cyflwyno eich gweledigaeth gorfforaethol a'ch gwerthoedd mewn perthynas â darparu gwasanaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Defnyddio iaith hawliau a chyfeiriadau at y Confensiynau wrth gyfathrebu ag asiantaethau allanol, er enghraifft, ysgolion a lleoliadau addysg eraill.
- Defnyddio iaith hawliau a chyfeiriadau at y Confensiynau wrth gyfathrebu â theuluoedd a phlant a phobl ifanc, ceir enghreifftiau o hynny yma ac yma.
- Egluro sut a phryd mae hawliau wedi cael eu cymryd i ystyriaeth trwy gofnodi a chyhoeddi asesiadau effaith ar hawliau plant.

## Cydraddoldeb a Pheidio â Chamwahaniaethu

Mae cydraddoldeb yn golygu sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i wneud yn fawr o'u doniau a datblygu hyd eithaf eu potensial, ac nad oes rhaid i unrhyw blentyn oddef cyfleoedd gwael mewn bywyd oherwydd gwahaniaethu yn eu herbyn.

Mae hyrwyddo cydraddoldeb yn golygu gweithredu i fynd i'r afael â chamwahaniaethu, sy'n hawl o dan CCUHP (Erthygl 2). Mae peidio â chamwahaniaethu hefyd yn un o egwyddorion CCUHPA (Erthygl 3). Mae CCUHPA hefyd yn cyflwyno egwyddor cynhwysiad (Erthygl 3) a dylestwydd gwladwriaethau i barchu'r egwyddor hon (Erthygl 4).

Mae cynhwysiad yn galw am amgylchedd corfforol a chymdeithasol sy'n hygyrch ac yn ddirwystr. Rhaid i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn atal gwahaniaethu anuniongyrchol yn erbyn plant a phobl ifanc anabl, sy'n gallu eu hatal rhag cyfranogi a phrofi eu hawliau dynol. Nid mater o roi pobl anabl yn gorfforol yn yr un lle â phobl heb anabledd yw cynhwysiad (er enghraifft, yn yr ystafell ddosbarth). Mae angen i gyrff cyhoeddus addasu a hyrwyddo newidiadau fel bod modd i bobl anabl gyfranogi ar sail gyfartal ag eraill. Er enghraifft, yn y dosbarth gallai hynny olygu newid gweithgareddau fel eu bod yn datblygu galluoedd a chapasiti pob disgybl.[iii]

Rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol hefyd o effaith camwahaniaethu lluosog: pan fydd plentyn yn wynebu camwahaniaethu ar fwy nag un sail (e.e. plentyn ag anabledd sy'n byw mewn tlodi). Rhaid i gyrff cyhoeddus fod yn ymwybodol y gall plant, gan gynnwys plant anabl, wynebu camwahaniaethu a thriniaeth annheg, ac y bydd angen cymorth arbennig arnynt i fwynhau eu hawliau dynol.

**I roi'r egwyddor hon ar waith mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylai cyrff cyhoeddus wneud y canlynol:**

- Gwybod beth yw anghenion y plant sy'n defnyddio gwasanaethau ADY. Gwneud hynny trwy gasglu gwybodaeth am y nodweddion gwarchodedig ac anghenion eraill plant, a sicrhau bod y **data yma'n cael ei ddefnyddio i wella gwasanaethau**. Er enghraifft, gwneud yn siŵr bod cynllunio o amgylch y ddarpariaeth neu'r gweithlu yn adlewyrchu'r ystod lawn o anghenion, gan gynnwys: daearyddol, ethnigrwydd, hyrwyddo mynediad cyfartal i ddarpariaeth Gymraeg, dewis iaith, gan gynnwys ieithoedd cymunedol a Iaith Arwyddion Prydain (BSL), oed, ffafrio addysg seiliedig ar ffydd.
- Cynnal **Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb** ar ddogfennau strategol arwyddocaol neu pan fydd newidiadau'n cael eu gwneud.
- Yn ogystal â'r nodweddion gwarchodedig, cynnwys anfantais sosio-economaidd a'r iaith Gymraeg fel ystyriaethau penodol mewn Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.
- Hybu cynhwysiad trwy wneud plant anabl a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol yn weladwy ar draws y sefydliad cyfan, gan greu cyfleoedd i ddathlu cyfranogiad plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn eang.

- Darparu gwybodaeth i bob plentyn a pherson ifanc (trwy arddangosfeydd, gwybodaeth, gweithgareddau) sy'n dathlu cyfranogiad plant anabl a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol wrth gynllunio gwasanaethau.
- Sicrhau bod yr amrywiaeth llawn o blant a phobl ifanc yn derbyn cyfathrebiadau gan eich sefydliad mewn ffurf maen nhw'n gallu ei ddeall.
- Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod y cynllunio ar gyfer Darpariaeth Dysgu Ychwanegol yn cysylltu â **Chynllunio Strategol y Gymraeg mewn Addysg**, i sicrhau mynediad cyfartal at addysg cyfrwng Gymraeg. Rhaid i hyn gynnwys ystyriaethau maint a gallu'r gweithlu cyfrwng Cymraeg, fel y nodir ym Mharagraff 7.3 o'r Côd, a dylai gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd dyletswyddau Deddf 2018 i ddarparu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg yn dod yn absoliwt gydag amser.
- **Hybu cynhwysiad ar draws gwasanaethau ehangach a phrofiad llawn plant gyda'ch corff cyhoeddus.**

  Dylai **awdurdodau lleol** ystyried i ba raddau maen nhw'n bodloni gofynion cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu yn achos plant anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr enghreifftiau canlynol:

  - ymweliadau a theithiau addysgiadol
  - fforwm ieuenctid / cyngor ieuenctid
  - gwasanaeth cerdd
  - trafnidiaeth, gan gynnwys i leoliadau addysg
  - gwasanaethau chwarae a darpariaeth chwarae
  - darpariaeth ieuenctid a gwasanaethau cymorth ieuenctid
  - Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd
  - gwasanaethau hamdden a chwaraeon
  - tai

  Dylai **cyrff iechyd** ystyried i ba raddau maen nhw'n bodloni gofynion cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu yn achos plant anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr enghreifftiau canlynol:

  - Gwybodaeth a hygyrchedd lleoliadau gofal sylfaenol
  - Mynediad at wasanaethau gofal eilaidd
  - Ystafelloedd aros mewn lleoliadau gofal eilaidd
  - Llinellau cymorth CAMHS
  - Gwybodaeth ar-lein am wasanaethau iechyd
  - Gwasanaeth nyrsio mewn ysgolion
  - Fforwm iechyd ieuenctid
- Sicrhau bod **gwasanaethau a gomisiynwyd** i gefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol wedi ymrwymo i fod yn gynhwysol a pheidio â chamwahaniaethu. Er enghraifft, darparwyr EOTAS neu ddarpariaeth trafnidiaeth
- Sicrhau **nad yw gwasanaethau'n creu rhwystrau i blant a phobl ifanc sydd ddim mewn lleoliadau addysg**, er enghraifft, dylai awdurdodau lleol gymryd pob cam i sicrhau bod plant sy'n cael eu haddysgu gartref yn cael mynediad i gefnogaeth ADY, fel y nodir ym Mhennod 18 o'r Côd. Dylai cyrff iechyd sicrhau nad yw'r dehongliad a'r defnydd o ganllawiau asesu (fel canllawiau NICE) yn gwahaniaethu yn erbyn plant sydd heb eu cofrestru mewn lleoliadau addysg, er enghraifft, dylai plant sydd heb dystiolaeth gan weithwyr addysg proffesiynol ddal i fedru cael mynediad at asesiad diagnostig trwy dystiolaeth gweithwyr proffesiynol eraill.
- **Casglu data meintiol perthnasol** er mwyn gallu adnabod grwpiau o blant neu bobl ifanc a all fod yn profi anghydraddoldeb. Dylai'r data hwn gynnwys ffocws ar y canlynol:

  - **Defnydd o ataliaeth**. Dylid cofnodi a dadansoddi hyn, gan roi cefnogaeth briodol i staff a phlant mewn lleoliadau addysg a iechyd. Cewch ragor o wybodaeth am argymhellion y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch ataliaeth yma.

  - **Achosion pan gaiff plant eu hynysu** oddi wrth eu cyfoedion, er enghraifft, eu **cau allan** o'r dosbarth, eu cadw'n **ynysig** yn ystod amser egwyl, neu eu hynysu oherwydd anghenion gofal iechyd neu driniaethau. Dadansoddi'r wybodaeth yma i sicrhau bod yr ynysu'n gyfyngedig a bod plant yn cael cyfleoedd i gymdeithasu. Cewch ragor o wybodaeth am ynysu, gwaharddiadau a phecyn offer sy'n gallu helpu i atal defnydd o ynysu mewn ysgolion yma.

## Grymuso plant

Dylai hawliau dynol rymuso plant. Ystyr grymuso yw datblygu galluoedd plant fel unigolion fel eu bod mewn sefyllfa well i fanteisio ar hawliau, ac ymgysylltu â'r unigolion a'r sefydliadau hynny sy'n effeithio ar eu bywydau, gan ddylanwadu arnynt a'u gwneud yn atebol.

Dylid rhoi gwybodaeth i blant i gynyddu eu dealltwriaeth o hawliau dynol, a mynediad at adnoddau i'w galluogi i ddefnyddio'u hawliau yn eu bywydau pob dydd. Ystyr grymuso yw dileu rhwystrau i fynediad plant at wybodaeth neu adnoddau sy'n eu galluogi i ddeall ac ymarfer eu hawliau.

Ystyr grymuso yw galluogi plant i wneud dewisiadau ac effeithio ar ganlyniadau iddynt eu hunain a'u teuluoedd. Mae grymuso'n newid y berthynas rhwng plant ac awdurdodau. Mae'n golygu bod oedolion yn trosglwyddo peth neu'r cyfan o'r pŵer i blant, neu'n rhannu pŵer gyda phlant, fel bod plant yn gallu rheoli a chyfeirio'u bywydau yn well, yn arbennig mewn meysydd lle nad oedd y gallu hwnnw ar gael iddyn nhw'n flaenorol.

Mae grymuso yn un o gysyniadau canolog y model cymdeithasol a seiliedig ar hawliau o anabledd yn CCUHPA. O dan y model hwn, caiff pobl ag anableddau eu grymuso, mae ganddynt reolaeth ar eu bywydau, ac maen nhw'n mwynhau cyfranogiad llawn ar sail gyfartal ag eraill. Y Llywodraeth a'r gymdeithas ehangach sydd â'r ddyletswydd o sicrhau'r cyfle hwn, nid y person eu hunain.

Mae'r egwyddor hon hefyd yn berthnasol i blant iau, a dylid ei gweld fel cyfraniad pwysig at ddatblygiad y plentyn. Gall fod yn arbennig o berthnasol i blant sy'n aelodau o grwpiau cymdeithasol sy'n cael eu heithrio, eu gwthio i'r cyrion neu sydd o dan anfantais.

**I roi'r egwyddor hon ar waith mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylai cyrff cyhoeddus wneud y canlynol:**

- Defnyddio **iaith hygyrch**. Adolygu gwybodaeth a chyngor ynghylch anghenion dysgu ychwanegol (llythyron, gwefan, arddangosfeydd etc) i sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn derbyn gwybodaeth syml y gallan nhw ei deall, sydd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau. Cynnwys plant a phobl ifanc yn yr adolygiad yma. Bydd hynny'n helpu i gyflawni'r dyletswyddau a nodir ym Mhennod 6 o'r Côd.
- Cynnwys **gwybodaeth am hawliau dynol plant** wrth gyfathrebu â phlant a phobl ifanc. Rhoi gwybod iddyn nhw sut mae gwasanaethau ADY yn cefnogi eu hawliau dynol (er enghraifft eu hawliau i gael addysg, i ddatblygu eu doniau a'u sgiliau'n llawn, neu i chwarae). Defnyddiwch iaith hawliau a'r confensiynau i wneud hyn.
- Ystyried **trafnidiaeth** a sut bydd plant a phobl ifanc yn cael mynediad i wasanaethau. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig lle nad oes darpariaeth drafnidiaeth statudol o bosib: er enghraifft i blant sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd neu bobl ifanc dros 16 oed sydd heb hawl i gael eu cludo i leoliadau addysg.
- Mae **eiriolaeth** yn helpu i chwyddo llais plentyn neu berson ifanc. Cyflwynir dyletswyddau cysylltiedig ag eiriolaeth ym Mhennod 32 o'r Côd. Nid ar gyfer datrys gwrthdaro yn unig y mae eiriolaeth, mae hefyd yn helpu i sicrhau bod plant yn cael lleisio barn. Gofalu bod staff yn deall ac yn gallu esbonio wrth blant: beth yw eiriolaeth; sut gall eiriolaeth helpu; a sut gallan nhw gael eiriolydd.
- Creu **cyfleoedd a dulliau i blant weithredu ar y cyd**, er enghraifft trwy ddefnyddio ein pecyn offer cyfranogiad cynhwysol i lywio cynllunio strategol ac adolygu eich gwasanaeth (fel y nodir ym Mhennod 7 o'r Côd)
- Creu **cyfleoedd a dulliau i blant weithredu'n unigol**, er enghraifft mewn cyfarfodydd ac wrth ryngweithio â phlant (e.e. eu cyfarfodydd cynllunio neu adolygu CDU) cynnwys cyfle i'r plant ddweud pa rannau o'ch sefydliad sy'n eu helpu fwyaf, a beth maen nhw eisiau ei weld yn gwella. Casglu'r data yma i amlygu themâu.
- Cynnwys gwybodaeth am **Gomisiynydd Plant Cymru** mewn cyngor a gwybodaeth i deuluoedd. Bydd hyn yn helpu plant i ddeall bod ganddyn nhw bencampwr annibynnol sy'n gallu eu cynghori a'u cefnogi i dderbyn eu hawliau.
- Gofalu bod gan blentyn **ffrind achos** os nad ydyn nhw'n gallu deall gwybodaeth neu fanteisio ar yr hawliau sydd ganddyn nhw trwy'r system ADY. Mae Pennod 30 o'r Côd yn nodi sut mae ffrindiau achos yn cynrychioli, yn cefnogi ac yn cyfranogi mewn penderfyniadau.
- Neilltuo adnoddau yn eich cyllideb i gefnogi **cyfleoedd hyfforddi a datblygu i blant**, er enghraifft, efallai bydd gwasanaethau am ddatblygu grwpiau ymgynghori, Byrddau Cynghori, neu sesiynau gwybodaeth i blant. Bydd angen sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i ddarparu gweithgareddau a chyfleoedd i'r plant sy'n cymryd rhan.

## Cyfranogiad

Ystyr cyfranogiad yw gwrando ar blant a chymryd eu barn i ystyriaeth. Dylai pob plentyn gael eu cefnogi i fynegi barn yn rhydd; dylen nhw gael eu clywed a'u gwrando. Dylid cymryd eu barn o ddifri pan wneir penderfyniadau neu gymryd camau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae cyfranogiad yn egwyddor sy'n croesdorri'r ddau Gonfensiwn gan y CU. Mae hynny'n golygu bod angen gwireddu cyfranogiad er mwyn gwireddu holl hawliau eraill CCUHP a CCUHPA.

Mae cyfranogiad hefyd yn egwyddor allweddol yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ac fe'i cyflwynir ym Mhennod 4 o'r Côd.

Mae cysyniad cyfranogiad llawn ac effeithiol yn golygu bod plant a phlant anabl yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr cyfartal mewn prosesau sy'n ymwneud â phenderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Bydd angen cymryd barn plant i ystyriaeth a rhoi pwys dyledus arni ar sail eu hoed a'u haeddfedrwydd, ond nid yw oed ifanc neu anaeddfedrwydd cymharol yn esgusodi diystyru barn plant neu roi llai o sylw iddynt mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Mae cyfranogiad yn mynd y tu hwnt i ymgynghori ac yn cynnwys rhoi gwybodaeth lawn i blant, eu galluogi i ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau, a chreu'r posibilrwydd o leisio barn a chwyno pan wrthodir cyfranogiad.

Mae cyfranogiad llawn, ystyrlon i blant a phobl ifanc anabl yn galw am amgylchedd corfforol a chymdeithasol sy'n hygyrch ac yn ddirwystr. Dylid nodi rhwystrau i gyfranogiad a'u dileu.

Dylai fod yn eglur sut mae plant wedi dylanwadu ar benderfyniadau a sut mae eu barn wedi cael ei chymryd i ystyriaeth, gan roi adborth bob amser i'r plant sy'n rhan o'r broses. Ni ddylid deall cyfranogiad fel nod ynddo'i hun, ond fel proses, sy'n ddiogel, yn alluogol ac yn gynhwysol, ac sy'n cefnogi deialog rhwng plant a gweithwyr proffesiynol.

**I roi'r egwyddor hon ar waith mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylai cyrff cyhoeddus wneud y canlynol:**

- Cynnwys **ymrwymiad clir i gyfranogiad cynhwysol** plant mewn datganiadau polisi sy'n cyflwyno'r weledigaeth neu'r prif amcanion.
- Mabwysiadu'r saith Safon Cyfranogiad Cenedlaethol a'u defnyddio i lywio cyfranogiad. Y safonau hyn sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni dyletswyddau ym Mhenodau 4 a 6 o'r Côd.
- Defnyddio ein pecyn offer cyfranogiad cynhwysol i gefnogi'r canllawiau hyn. Cynllun cyfranogiad cynhwysol yw hwn sy'n cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o wneud penderfyniadau ynghylch sut mae gwella gwasanaeth: mae modd defnyddio'r gweithgareddau i gefnogi grŵp amrywiol o blant, gan gynnwys rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Neilltuo **amser** ar gyfer cyfranogiad wrth gynllunio. Nodi **mannau** diogel, hygyrch (ar-lein ac all-lein) ar gyfer cyfranogiad. Nodi **ymarferwyr** medrus sy'n gallu arwain sesiynau cyfranogiad a chyfleoedd.
- Sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn **deall gwahanol fodelau o gyfranogiad**, ac yn gallu dewis y model mwyaf priodol ar gyfer prosiect neu weithdrefn arbennig. Gall model cyfranogiad helpu i ddiffinio hyn ac egluro i ba raddau bydd pobl ifanc yn profi perchnogaeth o'r broses. Mae ein canllaw i weithwyr proffesiynol yn dangos tri model gwahanol i helpu i lywio pa fath o gyfranogiad sydd orau ar gyfer prosiectau penodol.
- Gofalu bod cyfranogiad yn **gynhwysol**. Dylai pawb gael cyfle i gyfranogi. Os yw rhai grwpiau o blant ar goll o gyfleoedd cyfranogiad, ymgynghori â phlant i ddeall y rhwystrau a'u dileu.
- Darparu **gwybodaeth** i blant i gefnogi eu hymwneud ag unrhyw un o'r gweithdrefnau uchod, mewn iaith neu fformat sy'n ddealladwy iddyn nhw. Efallai bydd angen i chi ddarparu sawl fersiwn o'r un wybodaeth, pob un ohonynt ar gyfer grŵp neu unigolyn penodol.
- Rhoi **adborth** i blant a staff ynghylch sut mae cyfranogiad plant wedi gwneud gwahaniaeth, er enghraifft cynnal sesiwn FE DDWEDSOCH CHI, FE WNAETHON NI, neu rannu'r wybodaeth yna mewn arddangosfa.
- Cynnwys plant wrth **recriwtio pob aelod o staff** sydd â chyfrifoldebau a fydd yn effeithio ar blant.

## Atebolrwydd

Mae Deddf 2018 yn gofyn bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i hawliau dynol plant. Mae angen i gyrff cyhoeddus fod yn atebol o ran sut maen nhw wedi ystyried hawliau dynol plant yn eu cynllunio strategol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae angen iddyn nhw fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau, a darparu rhesymau am y penderfyniadau a'r camau gweithredu hynny.

Dylid rhoi gwybodaeth i blant a mynediad at weithdrefnau sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio llunwyr penderfyniadau. I sicrhau unrhyw hawl ddynol, mae rhaid i blentyn wybod y dylen nhw fedru ei derbyn, a gallu mynd ati'n rhagweithiol i hawlio'u hawliau dynol, gan gynnwys wrth wneud cwyn neu herio penderfyniadau a chamau gweithredu.

Mae atebolrwydd yn golygu bod angen monitro i ba raddau mae plant, gan gynnwys plant anabl, yn profi eu hawliau dynol, a nodi sut mae modd gwella hynny. Mae hefyd yn galw am sefydlu dulliau brys ac effeithiol o wneud iawn os bydd yr awdurdod lleol neu'r corff GIG yn methu â sicrhau hawliau dynol plant, er enghraifft, mynediad plant at ofal iechyd, neu addysg.

Rhaid i awdurdodau, a phob aelod o staff sydd â chyfrifoldebau sy'n effeithio ar blant, ddeall bod gan blant hawliau dynol, a bod rhwymedigaeth arnynt i barchu, diogelu a chyflawni hawliau plant. Dylai pawb sy'n ymwneud â hyn ddeall eu bod yn atebol i blant am gyflawni'r rhwymedigaeth hon.

**I roi'r egwyddor hon ar waith mewn perthynas ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, dylai cyrff cyhoeddus wneud y canlynol:**

- Cyflawni **Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant** i lywio penderfyniadau, prosiectau, strategaethau a dulliau gweithredu allweddol. Cyhoeddi'r dogfennau hyn a'u cadw wrth law ar-lein i egluro'r penderfyniadau a wneir. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r dyletswyddau sy'n cael eu hesbonio ym Mhennod 5 o'r Côd, er enghraifft yn 5.9.
- Cyhoeddi **fersiynau crynodeb hygyrch o'ch Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant**. Gall y rhain fod ar ffurf fideo, testun symbolau, animeiddiad, BSL neu fformatau eraill. Defnyddiwch y rhain i esbonio wrth blant sut mae eich gwasanaeth yn ystyried ac yn cefnogi eu hawliau dynol.
- Dylai **goruchwylio a rheoli perfformiad staff** gynnwys cyfeiriad at hawliau dynol plant, fel bod modd i sefydliadau ddangos sut caiff dyletswydd 'sylw dyledus' Deddf 2018 ei gweithredu trwy lifoedd gwaith. Er enghraifft, ystyried rolau arweiniol ar gyfer pob un o egwyddorion Y Ffordd Gywir.
- Galluogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o **fonitro a gwerthuso** effeithiolrwydd gwasanaethau (er enghraifft y dyletswyddau ym Mhennod 7 o'r Côd). Cysylltu monitro a gwerthuso ag erthyglau ac egwyddorion allweddol yn CCUHP a CCUHPA er mwyn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n galluogi'r hawliau hyn.
- **Monitro a gwerthuso cyfranogiad**, a chynnwys plant yn hynny. Ceisio canfod a yw plant yn teimlo eu bod yn gallu bod yn rhan o benderfyniadau am eu Darpariaeth Dysgu Ychwanegol, ydyn nhw'n meddwl eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am wasanaethau, ac ydyn nhw'n teimlo eu bod yn gallu rhoi adborth am eu profiad o wasanaethau? Gallwch chi ddefnyddio ein pecyn offer cyfranogiad cynhwysol i wneud hyn.
- Esbonio sut mae hawliau plant yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth adrodd am weithrediad Deddf 2018 i **lywodraethwyr eich sefydliad**. Er enghraifft, darparu CRIA i lywio'r craffu gan y cyngor, neu'r craffu gan reolwyr neu'r bwrdd.
- **Cynnwys plant a phobl ifanc mewn strwythurau llywodraethu**, er enghraifft, rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc rannu profiadau a gofyn cwestiynau i aelodau neu bwyllgorau allweddol yn y cyngor neu aelodau allweddol o'r bwrdd neu bwyllgorau. Hefyd gallai gwasanaethau sefydlu neu ymgysylltu â strwythur llywodraethu ieuenctid paralel, er enghraifft bwrdd ieuenctid neu gyngor ieuenctid.
- Sicrhau bod strwythurau llywodraethu yn darparu **gwybodaeth hygyrch, ddealladwy** i blant.
- Darparu **gwybodaeth hygyrch i blant ynghylch sut mae cwyno**, a galw'r corff cyhoeddus, neu staff unigol, i gyfrif. Er enghraifft, darparu gwybodaeth hawdd ei deall ynghylch "Cywiro Pethau". Os yw plentyn yn gwneud cwyn, gofalu eu bod nhw'n ymwybodol o unrhyw gefnogaeth sydd ar gael ar ffurf eiriolaeth (fel ym Mhennod 32 o'r Côd).
- Gofalu bod plant yn derbyn gwybodaeth glir, hygyrch, sy'n ddealladwy iddyn nhw am eu **hawl i apelio** (Pennod 33 o'r Côd). Gofalu eu bod yn deall rôl **ffrind achos** a sut mae hynny'n galluogi eu hawliau (Pennod 30 o'r Côd).

# COMISIYNYDD PLANT CYMRU: ADNODDAU AC OFFER I GEFNOGI'R CANLLAWIAU HYN:

- Offeryn Asesu Effaith ar Hawliau Plant
- Poster Comisiynydd Plant Cymru: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Pecyn Symbolau Comisiynydd Plant Cymru: Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Gwneud penderfyniadau gyda'n gilydd: cynllun cyfranogiad cynhwysol i gefnogi plant a phobl ifanc i fod yn rhan o benderfyniadau strategol
- Canllaw Cyfranogiad Comisiynydd Plant Cymru i weithwyr proffesiynol

[i] Cewch hyd i'r testunau hawliau dynol rhyngwladol craidd yma

[ii] Ni fwriadwyd egwyddorion dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant i'w defnyddio mewn unrhyw drefn benodol. Yn hytrach, dylid meddwl amdanynt a'u defnyddio gyda'i gilydd i lywio penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau. Mae peth gorgyffwrdd yn anochel. Er enghraifft, mae grymuso plant i wneud penderfyniadau a dewisiadau yn agos iawn at ddarparu cyfleoedd i blant fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, ac ni fydd cyfranogiad yn gwireddu hawliau i blant ond os yw'n digwydd ar sail egwyddor peidio â chamwahaniaethu a chydraddoldeb. Fodd bynnag, mae'r egwyddorion sy'n gorgyffwrdd yn ategu ei gilydd ac yn cyfrannu at ddull cyfannol, cydlynus a chynhwysfawr o wireddu hawliau plant o dan y ddau Gonfensiwn o eiddo'r CU.

[iii] Ceir esboniad ar gynhwysiad a pheidio â chamwahaniaethu yn CCUHPA, y mae'r testun hwn wedi'i seilio arno, yn y Pecyn Hyfforddi OHCHR cynhwysfawr ar CCUHPA yma.

**Cysylltu â ni**

Bydden ni'n croesawu eich cwestiynau ynghylch sut gallwch chi ddatblygu dull gweithredu seiliedig ar hawliau dynol plant, a bydden ni wrth ein bodd yn clywed sut mae'r fframwaith yma'n gwneud gwahaniaeth yn eich lleoliad. Rhowch wybod i ni trwy ein tagio ar Twitter neu Facebook @complantcymru neu anfon e-bost aton ni i post@complantcymru.org.uk

**Comisiynydd Plant Cymru**
Children's Commissioner for Wales